ADRODDIAD AR FONITRO CYMWYSTERAU **DIOGELWCH BWYD** YNG NGHYMRU

Mai 2019

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 2

2. Y dull o fonitro cymwysterau galwedigaethol 5

3. Y dirwedd diogelwch bwyd ehangach 6

4. Y cymwysterau diogelwch bwyd a reoleiddir gennym 7

5. Sut y gwnaethom fonitro'r cymwysterau 9

6. Yr hyn a ganfuom 10

7. Y camau a gymerwyd gennym 13

8. Casgliadau a'r camau nesaf 14

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith monitro a wnaed gennym mewn perthynas â chymwysterau diogelwch bwyd a reoleiddir y mae cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn eu cynnig yng Nghymru. Mae'n egluro ein rhesymeg dros ymgymryd â'r gwaith; sut y gwnaethom gynnal y gweithgarwch monitro; ac yn crynhoi ein canfyddiadau a'r cam gweithredu a gymerwyd gennym o ganlyniad i hynny. Mae'r gwaith o fonitro cymwysterau diogelwch bwyd yn rhan o'n rhaglen ehangach o weithgarwch monitro cymwysterau galwedigaethol fel y'i nodir yn ein Strategol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016.

Canolbwyntiodd ein gwaith monitro ar ddau gymhwyster diogelwch bwyd allweddol a gynigir gan naw corff dyfarnu, sef:

- Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo;
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo.

Noder: efallai y bydd ychydig o amrywiaeth o ran teitlau.

Gwnaethom ysgrifennu at y cyrff dyfarnu ym mis Mawrth 2018, yn gofyn am dystiolaeth ar gyfer ein gweithgarwch monitro. Gyda chymorth arbenigwyr diogelwch bwyd ac arbenigwyr asesu, adolygwyd y dystiolaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n nodi ein gofynion o ran dylunio ac asesu'r cymwysterau hyn a sicrhau eu hansawdd.



Canfyddiadau

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod yr asesiadau yn ddilys ac yn arwain at ddeilliannau dibynadwy. Roedd dulliau asesu cyrff dyfarnu yn addas ac roedd lefel y galw yn briodol. Ar y cyfan nodwyd bod prosesau rheoli canolfannau a sicrhau ansawdd yn gadarn ym mhob corff dyfarnu.

Nododd ein gwaith monitro rai diffygion yn y naw corff dyfarnu, yr ydym yn ystyried eu bod yn methu â chydymffurfio ag o leiaf un o'n Hamodau Cydnabod Safonol. Lle y gwnaethom nodi achos o ddiffyg cydymffurfio, gwnaethom ofyn i'r cyrff dyfarnu gyflwyno cynllun gweithredu i ni yn amlinellu sut roeddent yn bwriadu mynd i'r afael â'r maes/meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Nid ystyriwyd bod yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ddigon sylweddol fel ei bod yn ofynnol cymryd camau rheoleiddio mwy ffurfiol.

Gwnaethom nodi rhai meysydd lle roedd angen gwelliant ond ni wnaethom ystyried eu bod yn methu â chydymffurfio â'n rheolau. Yn yr achosion hyn, gwnaethom gyflwyno argymhellion a gofyn i'r cyrff dyfarnu ystyried ein canfyddiadau ac ymateb gydag unrhyw newidiadau arfaethedig y byddent yn eu gwneud.

Gwnaethom nodi dau faes cyffredin o ddiffyg cydymffurfio rhwng y cyrff dyfarnu:

- Nid oedd berfau gorchymyn[1] a ddefnyddir yn y meini prawf asesu yn cyd-fynd â'r hyn y mae'n ofynnol i'r dysgwr ei ddangos yn ystod yr asesiad;
- Ni ddarparwyd gwybodaeth ddigonol i'r canolfannau i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad (ar y cyfan mewn perthynas â chynnwys).

Gwnaethom hefyd nodi rhai achosion o ddiffyg cydymffurfio a oedd yn benodol i gyrff dyfarnu unigol.

Yn ogystal â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodir uchod, gwnaethom nodi na ellir cymharu rhai meysydd rhwng cyrff dyfarnu. Gwnaethom ofyn i'r cyrff dyfarnu ystyried y problemau cymharedd roeddem wedi arsylwi arnynt ac ymateb i ni gan amlinellu p'un a ellid cymryd unrhyw gamau i wella cymharedd.

[1] Mae berfau gorchymyn yn y cyd-destun hwn yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ddysgwr ei wneud mewn asesiad. Er enghraifft, y gair 'eglurwch' yw'r ferf gorchymyn yn 'eglurwch pam ei bod yn bwysig golchi eich dwylo cyn trin bwyd'. Yn yr achos hwn byddai'r gair 'eglurwch' yn anghydnaws â chwestiwn amlddewis sy'n gofyn i ddysgwyr 'ddewis' un ateb cywir o amrywiaeth o ymatebion a roddir.

Gweithgarwch dilynol

Mae llawer o'r problemau a nodwyd yn ystod y gwaith monitro yn gyffredin rhwng cyrff dyfarnu. O ystyried nad oedd fforwm er mwyn i gyrff dyfarnu diogelwch bwyd gwrdd i drafod materion megis cymharedd, gwnaethom wahodd y cyrff dyfarnu i fynychu dau gyfarfod i drafod y canfyddiadau ac ystyried sut y gallant gydweithio i wella cymharedd a chysondeb rhwng y cymwysterau hyn. Arweiniodd hyn at sefydlu fforwm rydym yn gobeithio y bydd yn sicrhau bod cyrff dyfarnu yn defnyddio dull mwy cyson yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r penderfyniad a wnaed gan y cyrff dyfarnu i sefydlu'r fforwm hwn, ac rydym yn annog pob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau diogelwch bwyd i ymgysylltu â'r grŵp.

Cyflwynodd y cyrff dyfarnu gynlluniau gweithredu i ni erbyn ein dyddiad cau, sef 1 Chwefror 2019. Gwnaethom adolygu'r cynlluniau gweithredu i sicrhau eu bod yn briodol ac yn mynd i'r afael â'n pryderon yn llawn. Rydym yn monitro'r ffordd mae'r cyrff dyfarnu yn rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith.

Mae cyrff dyfarnu unigol eisoes wedi mynd i'r afael â chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, a gyda chamau eraill, mae cyrff dyfarnu yn datblygu'n dda tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt. Er enghraifft:

- mae cytundebau canolfannau wedi cael eu diweddaru;
- mae papurau atebion / arholiad wedi cael eu hailddrafftio;
- mae rhai cyrff dyfarnu wedi penderfynu newid y dull asesu;
- mae un corff dyfarnu wedi penderfynu codi marc llwyddo ei arholiad er mwyn bod yn fwy cymaradwy â chymwysterau eraill tebyg;
- mae diwygiadau yn cael eu gwneud i ferfau gorchymyn i gyd-fynd yn well â'r dull asesu a ddefnyddir; ac
- mae manylebau wrthi'n cael eu diweddaru i wella eglurder a / neu adlewyrchu newidiadau eraill i'r cymwysterau.

Rydym yn fodlon ar y camau gweithredu mae'r cyrff dyfarnu yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn ac yn croesawu'r cydweithio sydd wedi dechrau drwy'r fforwm newydd a ffurfiwyd. Dylai hyn sicrhau bod mwy o gysondeb o ran arfer rhwng pob un o'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn. Dylai'r camau a gymerwyd gennym roi hyder i gyflogwyr sy'n dewis cymhwyster diogelwch bwyd a reoleiddir ar gyfer eu cyflogeion ac ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio ar gyfer y cymwysterau hyn.

2. Y dull o fonitro cymwysterau galwedigaethol

Nod ein gwaith monitro yw sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn addas at y diben pan fydd dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer. Mae ein rhaglen o waith monitro penodol yn dangos i gyrff dyfarnu bod gennym ddiddordeb brwd yn ansawdd y broses o asesu cymwysterau galwedigaethol.

Rydym yn adolygu ein cynlluniau monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i faterion sy'n codi – gan weithredu ar yr un pryd mewn modd strategol wrth ddewis cymwysterau i'w monitro. Byddwn yn ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu pa gymwysterau i'w monitro, gan gynnwys p'un yw'r canlynol yn gymwys i'r cymwysterau:

- maent yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus;
- mae ganddynt nifer fawr o gofrestriadau a thystysgrifau;
- maent yn asesu meysydd gwaith lle mae diogelwch yn hanfodol;
- maent yn bodloni gofyniad i ymarfer neu drwydded i ymarfer;
- maent yn darparu mynediad i addysg uwch; ac
- mae pryderon wedi'u codi yn eu cylch yn dilyn ymchwiliad i gwynion neu ddigwyddiadau.

Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, penderfynwyd canolbwyntio ein rhaglen fonitro ar gymwysterau yn y meysydd canlynol: Cymorth Cyntaf (2017), Diogelwch Bwyd (2018) ac Iechyd a Diogelwch (2019).

Fel rhan o'n gweithgarwch monitro, rydym yn cymharu ac yn cyferbynnu gwybodaeth a thystiolaeth o wahanol gyrff dyfarnu i brofi cydymffurfiaeth â'n Hamodau Cydnabod Safonol gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- dilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiad a'r safonau a bennwyd;
- prosesau sicrhau ansawdd; ac
- y canllawiau a ddarparwyd i ddarparwyr dysgu – ac i ba raddau y mae hynny'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.

Lle y bo'n bosibl, rydym yn ceisio cael adborth gan ddysgwyr, darparwyr dysgu a rhanddeiliaid allweddol eraill ac yn cynnwys arbenigwyr pwnc ac asesu wrth wneud rhywfaint o'r gwaith.

3. Y dirwedd diogelwch bwyd ehangach

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn 'adran annibynnol o'r Llywodraeth sy'n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'[2]

Yn ôl y wefan[3]: *'Yn y Deyrnas Unedig, nid oes rhaid i unigolion sy'n trin bwyd gael tystysgrif hylendid bwyd i baratoi neu werthu bwyd. Bydd yn well gan lawer o fusnesau bwyd eich bod yn gwneud hynny.'*

Mae'r un wefan hefyd yn datgan: *'Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod y bwyd rydych yn ei roi ar y farchnad yn hollol ddiogel. Rhaid i'r bwyd rydych yn ei ddarparu beidio â bod yn niweidiol i iechyd pobl nac yn anaddas i bobl ei fwyta,' ac: 'Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi cyfreithiau hylendid bwyd'*.

Felly, i bob pwrpas, am nad yw deddfwriaeth gyfredol yn ei gwneud hi'n ofynnol cwblhau cymhwyster i baratoi neu werthu bwyd, penderfyniad y rhai sy'n rheoli'r busnes yw'r ffordd y caiff staff eu hyfforddi i fodloni gofynion deddfwriaethol. Gallant ddewis ymgymryd â hyfforddiant mewnol neu allanol, a all arwain at gymhwyster neu beidio. Gall cymwysterau fod wedi'u rheoleiddio neu heb eu rheoleiddio. Nid yw ystyried ansawdd hyfforddiant diogelwch bwyd nac ansawdd cymwysterau diogelwch bwyd na chânt eu rheoleiddio yn rhan o gylch gwaith rheoleiddiol Cymwysterau Cymru.

[2] Gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd - https://www.food.gov.uk/cy/about-us/pwy-ydym-ni [cyrchwyd 07.03.19]
https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/hylendid-bwyd-ar-gyfer-eich-busnes
[cyrchwyd 29.10.18]

4. Y cymwysterau diogelwch bwyd a reoleiddir gennym

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Ar ôl cael ein sefydlu yn 2015 drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru, rydym yn rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno gan y cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym. Pan fydd corff dyfarnu yn gorff a gydnabyddir gennym, rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a bennir gennym, gan gynnwys ein Hamodau Cydnabod Safonol. Mae'r rhain yn nodi gofynion sy'n ymwneud â chynllunio, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau. Mae'r Amodau hyn hefyd yn eu gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu fod â phrosesau monitro cadarn i wirio ansawdd eu darparwyr hyfforddiant.

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb sydd gennym fel rheoleiddiwr cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau diogelwch bwyd o ddifrif. Os bydd cyflogwr yn dewis cymhwyster a reoleiddir gennym ar gyfer ei gyflogeion, rydym am sicrhau bod yr hyder sydd ganddo yn ansawdd y cymhwyster hwnnw yn briodol. O ganlyniad, gall cyflogwr sy'n dewis cymhwyster wedi'i reoleiddio a gynigir gan un o'n cyrff dyfarnu cydnabyddedig ddisgwyl yn rhesymol i ansawdd y cymhwyster a'r gwaith asesu fod o safon dda.

Mae cymwysterau diogelwch bwyd ymhlith y cymwysterau galwedigaethol â'r lefelau ardystio uchaf yng Nghymru. Dyfarnwyd 14,980[4] o dystysgrifau diogelwch bwyd a reoleiddir yng Nghymru rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Rhagfyr 2018.

Dyfarnwyd amrywiaeth o gymwysterau diogelwch bwyd yn y cyfnod hwn rhwng Lefel 1 a Lefel 4 ac yn cwmpasu meysydd megis diogelwch bwyd ym maes arlwyo, gweithgynhyrchu a manwerthu. Roedd y rhan fwyaf o'r tystysgrifau ar Lefelau 2 a 3.

Roedd cyfanswm cyfunol y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau diogelwch bwyd sy'n ymwneud ag arlwyo yn llawer uwch na'r cyfanswm cyfunol ar gyfer cymwysterau diogelwch bwyd eraill gan gynnwys gweithgynhyrchu a manwerthu. Felly, gwnaethom ganolbwyntio ein gwaith monitro ar y ddau gymhwyster diogelwch bwyd ym maes arlwyo wedi'u rheoleiddio isod:

- Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo;
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo.

Cymhwyster Lefel 2 oedd y cymhwyster a ddyfarnwyd fwyaf yng Nghymru, a dewiswyd y cymhwyster Lefel 3 oherwydd y nifer gymharol uchel o dystysgrifau a'i ddefnydd posibl fel llwybr dilyniant o'r cymhwyster Lefel 2 uchod.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y cymwysterau hyn gan wybod bod y cymwysterau diogelwch bwyd eraill sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn cael eu cynnig gan yr un cyrff dyfarnu a oedd yn cynnig y cymwysterau diogelwch bwyd ym maes arlwyo a'u bod wedi cael eu datblygu, eu hasesu a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau yn yr un ffordd.

[4] Mae hyn yn cynnwys data mewn perthynas â chymwysterau / cyrff dyfarnu nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru mwyach.

Mae cynnwys pob un o'r cymwysterau uchod yn gyffredin rhwng cyrff dyfarnu. Mae gan bob cymhwyster yr un meini prawf asesu a deilliannau dysgu neu feini prawf a deilliannau tebyg, waeth pa gorff dyfarnu a reoleiddir sy'n cynnig y cymhwyster. Fodd bynnag, ar adeg cynnal y gwaith monitro, nid oedd corff dyfarnu na grŵp sector ar waith i oruchwylio'r gwaith datblygu a'r gofynion cysylltiedig ar gyfer cymwysterau diogelwch bwyd a thrafod problemau cymharedd rhwng cyrff dyfarnu.

Fel arfer caiff cyrsiau sy'n arwain at ennill cymwysterau diogelwch bwyd eu cyflwyno dros gyfnod byr. Er enghraifft, byddai Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo fel arfer yn cael ei gyflwyno dros chwech i naw awr, tra bod Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo fel arfer yn cael ei gyflwyno dros 18 i 21 o oriau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r holl ddysgu a chwblhau'r gwaith asesu gofynnol. I gwblhau'r cymwysterau hyn yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth yn erbyn meini prawf asesu penodedig sy'n asesu gwybodaeth sylfaenol a dealltwriaeth o ddiogelwch bwyd. Nid yw'r cymwysterau hyn yn asesu cymhwysedd proffesiynol na sgiliau ymarferol.

Dengys Tabl 1 isod nifer y tystysgrifau a roddwyd gan gyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau diogelwch bwyd yng Nghymru a ddewiswyd rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Rhagfyr 2017.

Tabl 1: Tystysgrifau ar gyfer cymwysterau diogelwch bwyd yng Nghymru Ionawr 2017 – Rhagfyr 2017[5]

Cymhwyster	Nifer y tystysgrifau
Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo	13,970
Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo	805
Cyfanswm	14,770

Dengys Tabl 2 y cyrff dyfarnu a gafodd eu cynnwys yn y rhaglen monitro cymwysterau diogelwch bwyd a chyfanswm y tystysgrifau a roddwyd gan bob corff dyfarnu rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Rhagfyr 2017.

Tabl 2: Tystysgrifau yn ôl corff dyfarnu yng Nghymru 1 Ionawr 2017 - 31 Rhagfyr 2017

Corff dyfarnu	Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch	Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo
AoFA Qualifications	240	0
Cyngor Diogelwch Prydain	50	5
Highfield Qualifications	7,305	420
Industry Qualifications	15	0
NOCN	10	0
Qualsafe Awards	580	15
Qualifications Network	290	15
Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd	2,105	70
VTCT	*	0
Cyfanswm	**10,590**	**528**

*Mae * yn dynodi ffigurau islaw 5.*

[5] Mae hyn yn cynnwys data mewn perthynas â chymwysterau / cyrff dyfarnu nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru mwyach.

5. Sut y gwnaethom fonitro'r cymwysterau

Gwnaethom ysgrifennu at y naw corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau diogelwch bwyd yng Nghymru a ddewiswyd ym mis Mawrth 2018, gan nodi ein dull monitro a gofyn am dystiolaeth er mwyn i ni ei hadolygu.

Roedd y gweithgarwch monitro yn canolbwyntio ar i ba raddau yr oedd yr asesiad yn ddilys ac yn cynhyrchu deilliannau dibynadwy. Canolbwyntiwyd hefyd ar brosesau'r cyrff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo canolfannau i gyflwyno'r cymwysterau hyn a monitro canolfannau yn barhaus. Gwnaethom fonitro'r cyrff dyfarnu yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol sy'n nodi gofynion sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno cymwysterau, eu hasesu a sicrhau eu hansawdd.

Adolygwyd y wybodaeth a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu yn ystod 2018. Cynhaliwyd adolygiad desg o fanylebau cymwysterau, deunyddiau canllaw, prosesau rheoli canolfannau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Gwnaethom hefyd gontractio panel o dri arbenigwr pwnc ac asesu allanol i gynnal adolygiad technegol o ddeunyddiau asesu, samplau o dystiolaeth dysgwyr a aseswyd a dogfennaeth sicrhau ansawdd mewnol ac allanol ategol.

Gwnaethom gynnal ddau arolwg gan ddefnyddio holiaduron ar-lein. Roedd un yn ceisio barn dysgwyr a oedd wedi cwblhau un o'r ddau gymhwyster diogelwch bwyd yn ddiweddar, ac roedd yr ail holiadur yn ceisio barn staff mewn canolfannau sy'n cynnig y cymwysterau hyn. Roedd yr holiaduron ar agor rhwng 14 Awst a 12 Hydref 2018. Er ein bod wedi dosbarthu'r holiaduron i bob canolfan sy'n cynnig cymwysterau diogelwch bwyd yng Nghymru, hyrwyddo'r arolygon ar ein gwefan a thrwy Twitter, dim ond 34 o ymatebion a gafwyd i'r holiadur dysgwyr a 27 o ymatebion i'r holiadur canolfannau. Roedd hyn yn cynrychioli cyfran fach iawn o'r dysgwyr sy'n cwblhau'r cymwysterau hyn a staff canolfannau sy'n rhan o'r broses o'u cyflwyno a'u hasesu. Felly, nid oedd ein dadansoddiad o'r data a gasglwyd yn darparu gwybodaeth ddigonol er mwyn llunio casgliadau dibynadwy.

Fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cymwysterau hyn, gwnaethom ymgysylltu â'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau, Ofqual yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon. Gwnaethom ymgysylltu â rheoleiddwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwaith roeddem yn ei wneud a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein canfyddiadau a'r camau roeddem yn bwriadu eu cymryd.

6. Yr hyn a ganfuom

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod yr asesiadau yn ddilys ac yn arwain at ddeilliannau dibynadwy. Roedd dulliau asesu cyrff dyfarnu yn briodol, ac ni nodwyd unrhyw broblemau gyda'r asesiadau mewn perthynas â lefel y galw. Ar y cyfan nodwyd bod prosesau rheoli canolfannau yn gadarn ym mhob corff dyfarnu.

Er bod ein canfyddiadau cyffredinol yn gadarnhaol, a bod y cymwysterau yn addas at y diben a nodwyd, gwnaethom nodi rai problemau yn ystod ein gwaith monitro. Fodd bynnag, ni chododd y problemau hyn bryderon bod y dyfarniadau yn anniogel, ac roeddem yn fodlon y gellid eu datrys gan y cyrff dyfarnu yn rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Amlinellir y problemau isod.

Meysydd o ddiffyg cydymffurfio

Nododd ein gwaith monitro rai diffygion yn y naw corff dyfarnu, yr ydym yn ystyried eu bod yn methu â chydymffurfio ag o leiaf un o'n Hamodau mewn o leiaf un o'r ddau gymhwyster. Gwelwyd yr un problemau ym mhob corff dyfarnu.

Llunio cymwysterau ac asesiadau

Gwnaethom nodi bod saith o'r naw corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2, a'r pum corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 3, yn methu â chydymffurfio ag un agwedd ar Amod D1. Mae'r Amod hwn yn datgan mai dim ond os bydd cymhwyster yn bodloni gofynion dilysrwydd, dibynadwyedd, cymharedd, hydrinedd a lleihau tuedd cymaint â phosibl y bydd y cymhwyster hwnnw yn addas at y diben. Un agwedd y gwnaethom ei hystyried yn ystod yr adolygiad o dystiolaeth oedd ystyried p'un a oedd y meini prawf asesu a gyhoeddwyd (hynny yw, yr hyn mae'r cymhwyster yn datgan ei fod yn ei brofi y gall y dysgwyr ei wneud) yn gyson â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud mewn gwirionedd i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus. Mae hon yn un agwedd rydym yn ei gwirio fel rhan o adolygu dilysrwydd y cymhwyster.

Gwnaethom ganfod mewn rhai achosion fod diffyg aliniad rhwng y berfau gorchymyn yn y meini prawf asesu sy'n datgan yr hyn sy'n ofynnol i'r dysgwr ei ddangos a'r hyn y gofynnwyd iddynt ei wneud yn yr asesiad. Er enghraifft, gwelsom enghreifftiau o feini prawf asesu a oedd yn gofyn i'r dysgwyr 'egluro', 'amlinellu' neu 'ddisgrifio' i gyflawni'r meini prawf yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oedd y dull asesu (yn aml drwy ddefnyddio arholiadau amlddewis) bob amser yn caniatáu i'r dysgwr gael cyfle i ddangos y sgiliau hyn. Serch hynny, gwnaethom ystyried bod yr hyn y gofynnwyd i ddysgwyr ei ddangos yn ystod yr asesiad yn ddilys er mwyn cyflawni diben y cymhwyster. Felly, yn yr achos hwn, nid oedd hyn yn tanseilio dilysrwydd y cymhwyster yn sylweddol. Fodd bynnag, dylai cyrff dyfarnu wneud yn siŵr bod eu prosesau datblygu ac adolygu cymwysterau yn sicrhau bod aliniad rhwng y meini prawf asesu a'r asesiad. Nododd ein gwaith monitro rai enghreifftiau lle roedd cyrff dyfarnu eisoes wedi nodi ac unioni'r broblem hon yn ystod eu proses adolygu cymwysterau.

Digonolrwydd gwybodaeth i ganolfannau

Gwnaethom ganfod fod pump o'r naw corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2, a thri o'r pum corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 3 yn methu â chydymffurfio ag Amod D8, sy'n datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu ddarparu gwybodaeth ddigonol i athrawon i'w galluogi i gyflwyno'r cymwysterau yn effeithiol. Gwnaethom hefyd nodi bod pedwar o'r naw corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2, a dau o'r pum corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau Lefel 3, yn methu â chydymffurfio ag Amod E3.2(f). Mae'r Amod hwn yn datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y meini prawf ar gyfer cymhwyster yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a fydd yn cael eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster (gan roi arwydd clir o'u cwmpas a'u dyfnder). Yn yr achos hwn, nid oedd y fanyleb yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganolfannau am y wybodaeth y mae angen ei chwmpasu i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad.

Lle roedd cynnwys dangosol yn y manylebau, ystyriwyd ei fod ar y lefel gywir o fanylder i ddarparu gwybodaeth ddigonol i ganolfannau i baratoi dysgwyr ar gyfer pob agwedd ar yr asesiad. Gwelsom hefyd enghreifftiau da, lle roedd cyrff dyfarnu yn darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r rhai sy'n cyflwyno'r cymwysterau.

Problemau diffyg cydymffurfio eraill

Yn ogystal â'r uchod, roedd nifer o broblemau diffyg cydymffurfio yn ymwneud â chorff dyfarnu penodol. Trafodir enghreifftiau o'r rhain isod.

Dilysrwydd a dibynadwyedd y gwaith asesu

Nodwyd bod un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3, ac un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2, yn methu â chydymffurfio â meysydd eraill sy'n gysylltiedig ag Amod D1.2(a), fel y'u diffinnir uchod (er enghraifft, diffyg arweiniad a sicrhau ansawdd un elfen o'r asesiad).

Nodwyd bod un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2 yn methu â chydymffurfio ag Amod D1.2(b), sy'n datgan mai dim ond os bydd cymhwyster yn sicrhau'r gofynion dibynadwyedd, cyn belled â phosibl, y bydd y cymhwyster hwnnw yn addas at y diben. Yn yr achos hwn, roedd diffyg eglurder ac arweiniad ar gyfer un agwedd ar yr asesiad a allai effeithio ar gysondeb y deilliannau asesu oherwydd gallai aseswyr ddehongli gofynion asesu mewn ffyrdd gwahanol.

Cyhoeddi gwybodaeth mewn manyleb mewn perthynas â gosod yr asesiad

Nodwyd bod un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2 yn methu â chydymffurfio ag Amodau E3.2(g) a (j), sy'n datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod manyleb cymhwyster yn nodi dull unrhyw asesiad a bod unrhyw ofynion cysylltiedig sy'n ymwneud ag ef ac unrhyw lefelau cyrhaeddiad penodedig, ac Amod G1.1(c), sy'n datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod cynnwys yr asesiad yn gyson â'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster hwnnw. Yn yr achos hwn, nid oedd y corff dyfarnu wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol yn ei fanyleb.

Gosod yr asesiad

Nodwyd bod un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 3 yn methu â chydymffurfio ag Amod G1.1(a), sy'n datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod cynnwys yr asesiad yn addas at y diben. Yn yr achos hwn, roedd gwallau technegol mewn rhai cwestiynau, a oedd yn tanseilio dilysrwydd yr asesiad.

Marcio'r asesiad

Nodwyd bod un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 2 ac un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster Lefel 3 yn methu â chydymffurfio ag Amod H1.1(a), sy'n datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu fod â threfniadau effeithiol ar waith i sicrhau, cyn belled â phosibl, bod y meini prawf yn erbyn yr hyn y caiff perfformiad dysgwyr ei wahaniaethu yn cael eu deall gan aseswyr a'u cymhwyso yn gywir. Yn yr achos hwn, roedd rhai atebion anghywir wedi cael eu marcio fel rhai cywir.

Cymharedd

Gwnaethom nodi hefyd bod diffyg cymharedd rhwng cyrff dyfarnu mewn rhai meysydd. Gwelsom wahaniaethau mewn dulliau, a oedd yn cynnwys y dulliau asesu a ddefnyddiwyd, hyd yr asesiad, a'r hyn y mae'n ofynnol i ddysgwyr ei wneud i lwyddo yn yr asesiad. Gallai hyn danseilio cymharedd y cymwysterau, o dan Amodau Safonol D1.2(c) a H3.1(c).

Roedd y pwynt uchod ar ffurf argymhelliad i gyrff dyfarnu, yn hytrach nag achos o ddiffyg cydymffurfio.

7. Y camau a gymerwyd gennym

Cais am gynlluniau gweithredu

Yn dilyn ein gwaith monitro, daethom i'r casgliad y gellid mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gennym drwy gyflwyno cynlluniau gweithredu. Yn ystod hydref 2018, gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i bob corff dyfarnu gan nodi'r hyn roeddem yn disgwyl iddynt ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gennym.

Gwnaethom ofyn i'r naw corff dyfarnu (AoFA Qualifications, Cyngor Diogelwch Prydain, Industry Qualifications, Highfield Qualifications, NOCN, Qualsafe Awards, Qualifications Network, Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd a VTCT) gyflwyno cynllun gweithredu i ni, yn nodi'r ffordd roeddent yn mynd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio roeddem wedi'i nodi, i sicrhau eu bod yn bodloni ein Hamodau Cydnabod Safonol yn llawn.

Lle y gwnaethom argymhellion (nad oeddent yn cyfrif fel achos o ddiffyg cydymffurfio), neu geisio eglurhad pellach, gofynnwyd i gyrff dyfarnu ystyried y problemau hyn ac amlinellu eu hymateb iddynt.

Cyfarfodydd a fforwm cyrff dyfarnu

Gwnaethom wahodd pob corff dyfarnu a oedd wedi'i gynnwys yn y gweithgarwch monitro i ddod i gyfarfod ym mis Tachwedd 2018 i drafod canfyddiadau allweddol. Yn absenoldeb fforwm ar gyfer cyrff dyfarnu diogelwch bwyd, bwriad y cyfarfod oedd rhoi cyfle i gyd-drafod problemau cymharedd a chysondeb a llywio cynlluniau gweithredu cyrff dyfarnu.

Daeth llawer o bobl i'r cyfarfod, ac ymgysylltodd pob cynrychiolydd â'r broses. Cytunodd y cyrff dyfarnu ei bod yn werth trefnu cyfarfod pellach i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu fforwm cyrff dyfarnu diogelwch bwyd.

Gwnaethom hwyluso ail gyfarfod ym mis Ionawr 2019. Yn y cyfarfod hwn, cyfrannodd pob corff dyfarnu yn gadarnhaol a chytunwyd ar ffordd ymlaen i sefydlu fforwm ar gyfer cymwysterau diogelwch bwyd. Cytunwyd y byddai cylch gorchwyl ar gyfer aelodaeth yn cael ei benderfynu yng nghyfarfod cyntaf y fforwm ym mis Mawrth 2019. Mae'r fforwm hwn yn annibynnol ar Cymwysterau Cymru a chaiff ei reoli gan gyrff dyfarnu; bydd yn rhoi cyfle rheolaidd iddynt drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cymharedd rhwng eu cymwysterau diogelwch bwyd yn y dyfodol.

Cyflwyno cynllun gweithredu

Cyflwynodd pob corff dyfarnu gynllun gweithredu i ni erbyn 1 Chwefror 2019 yn amlinellu'r newidiadau maent a) eisoes wedi'u gwneud a b) yn cynnig eu gwneud. Roedd yn amlwg bod pob corff dyfarnu yn mynd i'r afael â'n canfyddiadau ac yn cymryd camau priodol i ddatrys unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a gweithredu ar ein hargymhellion.

Bydd Cymwysterau Cymru yn monitro pob un o gynlluniau gweithredu'r cyrff dyfarnu nes bod pob cam wedi'i gwblhau yn foddhaol.

8. Casgliad a'r camau nesaf

Down i'r casgliad bod y cymwysterau diogelwch bwyd hyn yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru ar y cyfan. Lle nodwyd problemau drwy ein gwaith monitro, gwnaethom ddefnyddio dull cymesur, tryloyw ac wedi'i dargedu drwy ofyn am gynlluniau gweithredu gan y cyrff dyfarnu.

Rydym yn falch bod pob corff dyfarnu wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ein gwaith monitro ac wedi ceisio mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio drwy gyflwyno cynllun gweithredu. Mae llawer o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes wedi cael eu cwblhau tra y bydd eraill yn cael eu cwblhau yn fuan. Mae hyn yn cynnwys:

- ailddrafftio cytundebau canolfannau a phapurau arholiad;
- newidiadau i'r dull asesu;
- codi'r marc llwyddo; diwygiadau i ferfau gorchymyn; a
- diwygiadau i fanylebau i wella eglurder a / neu adlewyrchu newidiadau eraill.

Dylai'r camau a gymerwyd gennym roi hyder i gyflogwyr sy'n dewis cymhwyster diogelwch bwyd a reoleiddir ar gyfer eu cyflogeion ac ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio ar gyfer y cymwysterau hyn.

Mae'n bosibl nad yw'r diffygion a nodwyd wrth fonitro cymwysterau diogelwch bwyd wedi'u cyfyngu i'r sector hwnnw. Gwnaethom argymell y dylai pob corff dyfarnu a oedd yn rhan o'r gweithgarwch monitro hwn ystyried eu cymwysterau galwedigaethol eraill o ystyried ein canfyddiadau a'u methiant i gydymffurfio.

Byddwn yn monitro cymwysterau iechyd a diogelwch yn 2019, pan fyddwn yn cynnal ein ffocws ar ddilysrwydd a dibynadwyedd cymwysterau galwedigaethol. Efallai y byddwn yn cynnal gweithgareddau eraill i fonitro cymwysterau galwedigaethol hefyd mewn ymateb i faterion a nodir gennym. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddwyr er mwyn rhannu unrhyw bryderon ynghylch y modd y caiff cymwysterau galwedigaethol eu cyflwyno, eu hasesu a'u dyfarnu a thrafod sut y gallwn gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Rydym yn annog pob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau a reoleiddir i ystyried p'un a yw'r materion a nodwyd gennym hefyd yn peryglu dilysrwydd y cymwysterau a gynigir ganddynt ac, os felly, gymryd y camau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny.